Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Goleg Cambria**
**Ffordd Parc y Llwyni**
**Wrecsam**
**LL12 7AA**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Choleg Cambria

Sefydlwyd y darparwr ym mis Awst 2013 o ganlyniad i uno Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Iâl. Coleg Cambria a'i bartneriaid, yng ngogledd a chanolbarth Cymru, yw'r pumed darparwr prentisiaethau mwyaf yng Nghymru, gan gyfrif am ryw 8% o'r ddarpariaeth a gyflwynir. Ar hyn o bryd, mae tua 2,300 o ddysgwyr yn dilyn rhaglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Y coleg yw'r prif bartner cyflwyno, ac mae'n cyflwyno tua 66% o raglenni ar hyn o bryd. Mae'r darparwr yn gweithio gyda phartneriaid cyflwyno sydd ag arbenigedd sy'n benodol i'r sector.

Mae contract presennol Llywodraeth Cymru yn werth tua £9.2 miliwn. Mae'r darparwr yn cyflwyno rhaglenni o hyfforddeiaeth i brentisiaeth uwch, lefel 5.

**Mae'r darparwr yn gweithio gyda'r partneriaid canlynol**

Jones Bros Ruthin (Civil Engineering) Ltd
Mid and North Wales Training
NACRO
NLTG
Pendine Park Care Organisation Ltd
Plato Training
Progression Training
Total People
ITeC Wrecsam

**Mae'r darparwr a'i bartneriaid yn cyflwyno rhaglenni hyfforddi mewn**

Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig
Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu
Busnes, gweinyddu a'r gyfraith
Clustogwaith
Iechyd a gofal cymdeithasol
Manwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid
Addysg a hyfforddiant
Gwallt a harddwch
Lletygarwch ac arlwyo
Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

## Crynodeb

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da yn datblygu medrau ymarferol a gwybodaeth am theori sy’n gweddu’n agos i’w rôl yn y gweithle. Mae ychydig o ddysgwyr yn datblygu medrau mwy cymhleth sy’n gysylltiedig â gwaith sy’n eu galluogi i ddatblygu gwybodaeth a chymhwysedd ymarferol ar lefel uwch. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau dysgu a meddwl yn annibynnol y maent yn eu defnyddio’n dda wrth ymgymryd â’u tasgau dyddiol yn y gweithle. Ar draws rhaglenni, mae dysgwyr yn llawn cymhelliant ac yn frwdfrydig, ac mae llawer ohonynt yn awyddus i fynd ymlaen i lefel nesaf yr hyfforddiant. Mae’r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau prentisiaeth a’r rhan fwyaf o raglenni hyfforddi eraill arnynt yn gyson gryf.

Ar draws partneriaid, mae aseswyr yn cynllunio asesiadau a sesiynau i ffwrdd o’r gwaith yn dda ac mae llawer ohonynt yn darparu addysgu, hyfforddiant ac asesu effeithiol i ddysgwyr. Mae’r darparwr yn gweithio’n arbennig o dda gydag ystod eang o gyflogwyr sy’n cyflwyno rhaglenni ar draws llawer o feysydd dysgu.

Mae uwch reolwyr y darparwr yn darparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer cyflwyno’i gontract dysgu yn y gwaith. Bu uwch reolwyr yn effeithiol yn cefnogi a datblygu eu tîm dysgu yn y gwaith. Mae prosesau hunanarfarnu’r darparwr yn hynod effeithiol ac mae’r rhain yn cynnwys ffocws clir ar wella deilliannau a phrofiadau dysgwyr. Mae’r darparwr wedi ffurfio perthnasoedd gweithio rhagorol gyda’r ystod eang o gyflogwyr y mae’n gweithio gyda nhw. O ganlyniad, mae deilliannau wedi aros yn gyson uchel dros y tair blynedd ddiwethaf ac mae dysgwyr yn datblygu’r lefel o fedrau ymarferol a gwybodaeth am theori sy’n eu galluogi i gynnal cyflogaeth.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Lleihau nifer y dysgwyr sy’n cymryd yn hwy i gwblhau eu rhaglenni na’r amserlen

A2 Arfarnu effaith y gwaith a wnaed ar radicaleiddio ac eithafiaeth i lywio cynllunio yn y dyfodol

A3 Cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg fel medrau yn y gweithle

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth ag ystod eang o gyflogwyr, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu ystod eang o fedrau ymarferol a gwybodaeth am theori sy'n gweddu'n agos i'w rolau gwaith. O ganlyniad, maent yn ymgynefino'n dda â chyflogaeth, ac wrth i'w medrau ddatblygu, yn dod yn aelodau gwerthfawr o weithlu eu cyflogwr.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu medrau ymarferol ac o ran cyflawni eu fframweithiau hyfforddi. Maent yn hyderus yn defnyddio eu medrau galwedigaethol yn eu gweithleoedd ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn glir am y medrau y maent wedi'u datblygu ers dechrau eu rhaglen. Mae llawer o ddysgwyr yn glir am y cynnydd y maent yn ei wneud. Mae ychydig iawn ohonynt yn dibynnu gormod ar gymorth eu haseswyr wrth osod a chytuno ar dargedau asesu. O ganlyniad, nid yw'r dysgwyr hyn yn cymryd perchnogaeth o'u rhaglenni nac yn datblygu eu medrau dysgu'n annibynnol yn ddigon da.

Mae dysgwyr prentisiaeth uwch yn datblygu eu medrau presennol yn dda wrth ymgymryd ag ystod eang o dasgau yn gysylltiedig â gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys dysgwyr yn dangos cymhwysedd a dealltwriaeth wrth ddefnyddio meddalwedd a pheirianwaith cyfrifiadurol arbenigol i ddylunio a gweithgynhyrchu cydrannau. Mae dysgwyr busnes yn cymhwyso prosiectau'n dda i'w gweithleoedd.

Mae llawer o ddysgwyr sylfaen a phrentisiaeth yn datblygu ystod eang o fedrau ymarferol. Mae ychydig o ddysgwyr yn datblygu medrau ymarferol ar lefel uwch. Er enghraifft, mae dysgwyr peirianneg yn datblygu eu dealltwriaeth a'u cymhwysedd wrth raglennu a gweithgynhyrchu offer robotaidd. Mae ychydig o ddysgwyr yn datblygu medrau meddwl ar lefel uwch a gallant gymhwyso cysyniadau a thechnolegau newydd i'w rolau swydd yn dda.

Mewn rhaglenni hyfforddeiaeth, mae dysgwyr yn datblygu ystod fuddiol o fedrau sy'n eu galluogi i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a chyflogaeth. Mae llawer ohonynt yn gwella eu hyder a'u hunan-barch ac yn ail-ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant. Mae'r dysgwyr hyn yn gwella eu medrau siarad a gwrando o gymharu â'u mannau cychwyn a buan y gallant addasu eu dull o ddelio â gwahanol bobl a sefyllfaoedd.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn llawn cymhelliant ac yn frwdfrydig ynglŷn â'u rhaglenni. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gweithio'n dda gyda'u haseswyr a'u cyflogwyr ac maent yn hyderus wrth gyfathrebu ac ymateb i gwestiynau.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu medrau cyfathrebu cadarn ac mae llawer ohonynt yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig ar lefel sy'n briodol i'w rhaglen. Mewn llawer o achosion, mae dysgwyr yn elwa ar adborth ysgrifenedig ar eu gwaith ysgrifenedig. Mae mwyafrif o ddysgwyr yn ymwybodol o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarnhaol o ran datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau digidol, trwy ddefnydd effeithiol o Becyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru, gan gynnwys dysgwyr sy'n cael eu hesgusodi. Mae llawer o ddysgwyr yn dilyn cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn llythrennedd digidol yn ogystal â

gofynion eu fframwaith. Mae ychydig iawn o siaradwyr Cymraeg yn dewis gwneud asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw llawer o ddysgwyr bob amser yn cydnabod manteision y Gymraeg fel medr cyflogadwyedd.

Mae'r cyfraddau cyffredinol y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau prentisiaeth a phrentisiaeth sylfaen arnynt ac yn ennill cymwysterau eraill yn gryf ac wedi bod yn debyg i gyfartaledd y sector, neu'n uwch, dros y tair blynedd ddiwethaf, ar y cyfan. Mae dysgwyr yn perfformio'n arbennig o dda mewn rhaglenni peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu a busnes, gweinyddu a'r gyfraith. Mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae cyfraddau llwyddiant mewn rhaglenni prentisiaeth uwch yn uwch na chyfartaledd y sector. Bu cyfraddau llwyddiant, gan gynnwys dysgu hyblyg, hyfforddeiaethau ac ymgysylltu, yn amrywiol ac anghyson.

Mae cyfraddau llwyddiant y fframwaith ar draws partneriaid cyflwyno ac mewn ychydig o lwybrau galwedigaethol wedi amrywio. Mae ychydig o ddysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau medrau hanfodol ar lefelau uwchlaw gofyniad eu fframwaith. Ar draws y ddarpariaeth, mae lleiafrif o ddysgwyr yn cwblhau eu fframweithiau yn hwyrach na'u dyddiad cwblhau amserlenedig.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn mwynhau eu dysgu ac yn dangos moeseg waith gref a chadarnhaol. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu gweithle ac mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan eu cyflogwr. Mae gan bron bob un o'r dysgwyr berthynas dda â'u haseswyr, eu hathrawon a'u cyflogwyr.

Yn ystod adolygiadau cynnydd, mae dysgwyr yn trafod manteision bwyta'n iach a ffyrdd iach o fyw yn rheolaidd. Maent yn trafod manteision gweithgarwch corfforol, peryglon cyffuriau ac yfed gormod o alcohol gyda'u dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddysgwyr yn trafod nac yn datblygu dealltwriaeth o radicaleiddio ac eithafiaeth yn eu hadolygiadau gydag ychydig o aseswyr.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau dysgu a meddwl yn annibynnol. Maent yn eu defnyddio'n dda wrth ymgymryd â thasgau dyddiol yn y gweithle. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn hyderus, yn huawdl ac yn deall rôl a chyfrifoldebau eu swydd yn dda. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau cyflogadwyedd cryf ac yn rheoli eu hamser yn dda. Maent yn gweithio'n dda dan bwysau. Er enghraifft, mae prentis lletygarwch lefel 2 yn ymateb yn effeithlon i wasanaeth tŷ bwyta prysur, ac mae prentis rheolaeth lefel 4 yn disgrifio mewn modd huawdl sut maent wedi cynllunio prosiect i adleoli cynhyrchiad rhwng dau safle, aildrefnu terfynau amser a delio â materion staffio i fodloni angen busnes.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o iechyd a diogelwch yn y gweithle. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos dealltwriaeth gref o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel a gyda phwy i gysylltu os bydd problemau'n codi yn y gwaith, yn y ganolfan hyfforddi neu yn y coleg.

Mae bron pob un o’r dysgwyr ar raglen hyfforddeiaeth y coleg yn elwa ar gymorth ychwanegol gwerthfawr a ddarperir gan hyfforddwr gwydnwch. Mae dysgwyr yn datblygu hunanhyder a gwydnwch gwell, ac mae’r mwyafrif ohonynt yn gwella eu hymddygiad a’u hagwedd at ddysgu. Mae dysgwyr yn manteisio ar gymorth gan asiantaethau allanol a gwasanaethau cymdeithasol pan fydd angen. O ganlyniad, mae dysgwyr yn ymgynefino â’u rhaglen hyfforddi yn gyflym, a lleihawyd y nifer sy’n gadael eu rhaglen yn gynnar o ganlyniad i broblemau lles neu iechyd meddwl. Mae bron pob un o’r dysgwyr hyfforddeiaeth yn mynychu sesiynau hyfforddi i ffwrdd o’r gwaith yn y coleg yn rheolaidd.

Mewn adeiladu, mae dysgwyr yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth medrau Gemau Olympaidd y coleg, sy’n addysgu dysgwyr yn y gwaith ac addysg bellach i weithio gyda’i gilydd a dysgu gwahanol fedrau. Mae dysgwyr sydd wedi cymryd rhan yn y cystadlaethau yn y gorffennol yn fodelau rôl effeithiol ac maent yn ysbrydoli dysgwyr eraill i gymryd rhan.

Ceir llawer o enghreifftiau da mewn peirianneg ac adeiladu lle mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn ystod o brosiectau cymunedol a digwyddiadau elusennol. Er enghraifft, mae dysgwyr wedi adeiladu corlan chwarae mewn ysbyty lleol, ystafell ddosbarth allanol mewn ysgol leol, ac maent wedi gweithio gyda’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar brosiect gardd furiog. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau dinasyddiaeth cryf a medrau cryf wrth weithio mewn tîm, ac maent yn aml yn goresgyn unrhyw heriau personol y gallent eu hwynebu.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae’r rhan fwyaf o athrawon ac aseswyr yn darparu sesiynau cynlluniedig a strwythuredig sy’n datblygu cymhwysedd a dealltwriaeth dechnegol dysgwyr yn dda. Maent yn cael dysgwyr i ganolbwyntio ar berthnasedd galwedigaethol y medrau y maent yn eu dysgu. Er enghraifft, mae prentisiaid gwaith coed yn ymarfer mesur a thorri uniadau cwpl to, ac yn datblygu medrau offer llaw sylfaenol, cyn mynd ymlaen at yr offer pŵer a ddefnyddir ar y safle. Mewn dosbarthiadau hyfforddeiaeth, mae athrawon yn esbonio’n glir y wybodaeth sydd wedi’i chynnwys ar fonyn cyflog a’r hyn y gall dysgwyr ddisgwyl ei dalu mewn treth ac yswiriant gwladol pan fyddant yn dechrau gweithio. Gwnânt gysylltiadau ystyriol rhwng treth a rôl y llywodraeth, sy’n arwain dysgwyr at drafodaethau gwerth chweil am y broses ddemocrataidd. Mewn sesiynau i ffwrdd o’r gwaith, mae athrawon yn defnyddio adnoddau o ansawdd uchel yn dda i ymgysylltu â dysgwyr a chreu sesiynau ysgogol. Er enghraifft, mae llawer o athrawon yn defnyddio cyfrifiaduron llechen ac offer ar y we i greu cwisiau a thasgau rhyngweithiol. Ar gyfer prentisiaid yn y diwydiannau gweithgynhyrchu datblygedig, mae athrawon yn defnyddio offer safon diwydiant i roi tasgau â ffocws gwaith realistig i ddysgwyr, fel gweithredu breichiau robotaidd, neu ddefnyddio technoleg ddylunio â chymorth cyfrifiadur.

Mewn hyfforddiant yn y gwaith, mae bron pob un o’r aseswyr yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â dysgwyr. Maent yn olrhain a helpu dysgwyr i gynllunio eu cynnydd trwy eu cymwysterau yn effeithiol, trwy ddefnyddio cynlluniau dysgu unigol a chofnodion cyswllt. Maent yn rhoi adborth clir i’w helpu i wella. O bryd i’w gilydd, fodd bynnag, mae aseswyr yn gosod targedau sy’n canolbwyntio gormod ar ddeilliannau asesu ac nid ydynt yn canolbwyntio’n ddigonol ar yr hyn y mae angen i ddysgwyr ei ddysgu. Mae gan bron bob asesydd brofiad diwydiannol perthnasol a

chyfoes, y maent yn ei ddefnyddio'n dda wrth drafod gwaith dysgwyr a'u helpu i fyfyrio ar eu dysgu. Er enghraifft, mewn lletygarwch, mae asesydd yn helpu cogydd dan hyfforddiant i baratoi seigiau cymhleth. Mewn peirianneg electro-dechnegol, mae asesydd yn defnyddio ei (g)wybodaeth ei hun am y rheoliadau diweddaraf ar gyfer gosod gwifrau, wrth drafod cynllun dysgwr ar gyfer cynnal offer trydanol.

Mae llawer o aseswyr yn gosod disgwyliadau uchel i ddysgwyr ac yn defnyddio holi'n dda i herio dysgwyr i fyfyrio ar eu dysgu ac ymestyn eu dealltwriaeth. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, mae aseswyr yn gofyn cwestiynau sy'n rhy arweiniol, ac nid ydynt yn herio dysgwyr i feddwl drostynt eu hunain ddigon. Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw aseswyr yn cynllunio a monitro cynnydd dysgwyr yn ddigon da, ac yn yr achosion hyn, nid yw ychydig iawn o ddysgwyr yn datblygu eu medrau ar y cyfraddau disgwyliedig.

Mae'r darparwr yn hynod ymatebol i anghenion ei sylfaen cyflogwyr ac i'r economi ranbarthol. Mae'n defnyddio adnoddau'r coleg yn dda i ychwanegu gwerth at brofiadau dysgwyr. Er enghraifft, trwy fuddsoddi'n sylweddol yn ei gyfleusterau peirianneg, gall y darparwr ddarparu dysgu pwrpasol ychwanegol i brentisiaid yn y diwydiannau gweithgynhyrchu datblygedig yn yr ardal, fel awyrofod a gweithgynhyrchu cerbydau. Mae dysgwyr yn y sector gweithgynhyrchu bwyd nad Saesneg neu Gymraeg yw eu mamiaith yn elwa ar ddarpariaeth Saesneg fel ail iaith ar safle eu cyflogwr.

Yn ei raglenni hyfforddeiaeth, mae'r darparwr wedi datblygu llwybrau dilyniant defnyddiol gyda chyflogwyr i ddysgwyr ddechrau ar brentisiaethau, er enghraifft yn y gwasanaeth tân neu mewn gweithgynhyrchwr dodrefn lleol. Mae'r llwybrau hyn i hyfforddiant pellach a chyflogaeth yn cymell dysgwyr na fyddai ganddynt ffocws efallai fel arall.

Mae'r rhan fwyaf o aseswyr yn annog dysgwyr i ddefnyddio Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru i ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol neu i ddilyn cymwysterau medrau hanfodol ychwanegol, ond mewn adolygiadau yn y gwaith, nid yw ychydig o aseswyr yn manteisio ar gyfleoedd sy'n digwydd yn naturiol i ddatblygu medrau dysgwyr trwy eu rolau swydd.

Mae aseswyr yn cynnig cyfle i ddysgwyr gael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae gan y darparwr ddarpariaeth addas ar gyfer y rheiny sy'n manteisio ar y cynnig hwn. Fodd bynnag, prin yw'r dysgwyr sy'n siarad Cymraeg sy'n cwblhau unedau asesu neu'n dilyn agweddau ar eu rhaglen trwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn cyfarfodydd adolygu yn y gwaith, ychydig o aseswyr yn unig sy'n cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio, ymarfer neu ddatblygu eu medrau Cymraeg.

Pan fo datblygu'r Gymraeg yn ofyniad yn lleoliad dysgwr, fel prentisiaid busnes a gweinyddu mewn cyngor lleol, mae'r darparwr yn cynnig dosbarthiadau Cymraeg defnyddiol, sydd wedi'u teilwra'n dda yn unol ag anghenion galwedigaethol y dysgwyr. Mae'r darparwr yn gweithio'n dda i ddatblygu medrau Cymraeg ei staff, er enghraifft trwy raglen Iaith Gwaith.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan y darparwr drefniadau cynhwysfawr i nodi anghenion cymorth dysgwyr, ac mae'n monitro cymorth yn briodol. Mae tîm cymorth i ddysgwyr y darparwr yn cynnig ystod o wasanaethau gwerthfawr, gan gynnwys cymorth, cwnsela a chyngor ac

arweiniad. Mae bron pob un o'r dysgwyr, gan gynnwys y rheiny â phartneriaid cyflwyno, yn derbyn canllaw cymorth dysgu a chymhwysiad ffôn clyfar defnyddiol sy'n galluogi iddynt gael cymorth arbenigol. Fodd bynnag, i ddysgwyr mewn partneriaid cyflwyno, mae'r trefniadau'n llai effeithiol.

Mae tiwtoriaid cymorth arbenigol yn gweithio'n dda gydag aseswyr i roi strategaethau dysgu ar waith ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, gan eu helpu i oresgyn rhwystrau posibl rhag dysgu. Mae rôl allweddol gan yr hyfforddwr gwydnwch a neilltuir i ddysgwyr hyfforddeiaeth yn y darparwr arweiniol o ran cynorthwyo dysgwyr ag anghenion emosiynol cymhleth, gan eu helpu i gynnal eu hymgysylltiad â dysgu. Fodd bynnag, prin yw'r dysgwyr prentisiaeth ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n manteisio ar wasanaethau cymorth y darparwr.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da ac yn derbyn cymorth buddiol gan aseswyr i gyflawni eu rhaglenni yn brydlon. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nodwyd anghenion cymorth dysgu'n rhy hwyr yn y rhaglen ac mae dysgwyr yn gwneud cynnydd arafach o ganlyniad.

Mewn llawer o achosion, mae aseswyr yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth dysgwyr yn dda. Mae deunyddiau cymorth sydd ar gael trwy ganolfan adnoddau'r darparwr yn helpu aseswyr i gynorthwyo dysgwyr i fod yn ddinasyddion gweithredol a chyfrifol. Maent yn trafod cydraddoldeb, amrywiaeth, gwerthoedd goddefgarwch a diogelwch ar-lein yn rheolaidd.

Mae'r darparwr yn llwyddiannus o ran hyrwyddo ymgysylltiad gan ddysgwyr yn y gwaith, cyflogwyr ac aelodau staff mewn ystod o weithgareddau cymunedol a chodi arian. Er enghraifft, yn ddiweddar, adeiladodd dysgwyr yn y gwaith amgylchedd dysgu awyr agored ar gyfer ysgol leol gan ddefnyddio deunyddiau a gyfrannwyd gan eu cyflogwyr.

Mae trefn y darparwr o fonitro a hunanasesu ei drefniadau diogelu, gan gynnwys ei ddarpariaeth ar gyfer Atal (Prevent) a gwrth-radicaleiddio, yn briodol i lywio cynllunio gwelliant. Er enghraifft, gwnaed gwelliannau yn ddiweddar i adnoddau dysgu ar Atal, gwerthoedd Prydeinig ac amddiffyn yn erbyn radicaleiddio. Fodd bynnag, mae effaith y gwelliannau hyn ar ddealltwriaeth dysgwyr o'r materion hyn yn rhy amrywiol. Nid oes unrhyw bryderon arwyddocaol am ddiogelu yn deillio o ddarpariaeth y darparwr.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan y darparwr weledigaeth strategol glir y mae'n ei chyfleu'n effeithiol i staff a phartneriaid. Mae'r cynllun strategol yn gweddu darpariaeth i anghenion cyflogwyr, datblygiad economaidd rhanbarthol a'r cynnydd yn nifer y prentisiaethau uwch a'r prentisiaethau gradd. Mae'r cynllun wrthi'n cael ei adnewyddu ar hyn o bryd i ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gan y prif swyddog gweithredol gysylltiadau cryf â chyflogwyr a grwpiau strategol allweddol. Mae hyn yn galluogi'r darparwr i ddatblygu darpariaeth ymatebol, deilwredig, sy'n bodloni anghenion cyflogwyr ac sydd â rôl strategol werthfawr yn yr economi ranbarthol. Mae uwch arweinwyr yn darparu cyfeiriad a goruchwyliaeth glir o ran dysgu yn y gwaith. Caiff arweinyddiaeth ei chyfarwyddo

gan set ymgorfforedig o ymddygiadau. Mae arweinwyr a rheolwyr wedi sefydlu tîm ymgysylltiedig a grymus i gyflwyno dysgu yn y gwaith. Mae gan y darparwr strategaeth ddefnyddiol i fentora staff i symud ymlaen i rolau uwch, sy'n galluogi cynllunio dilyniant.

Mae llywodraethwyr yn wybodus iawn ac yn cael eu cynnwys yn llawn wrth bennu blaenoriaethau strategol. Mae ganddynt ddealltwriaeth fanwl o gryfderau, meysydd i'w gwella a chynllunio blaenoriaethau. Mae llywodraethwyr yn craffu ar adroddiadau perfformiad ac yn herio uwch arweinwyr yn effeithiol.

Mae arweinwyr a staff yn deall cryfderau'r darparwr a'r meysydd i'w gwella, ar sail ystod eang o ddata a thystiolaeth. Mae'r darparwr yn nodi ei danberfformiad ei hun a thanberfformiad partneriaid yn effeithiol ac yn defnyddio cynlluniau gweithredu wedi'u targedu'n briodol i fynd i'r afael â diffygion. Caiff amlder y monitro ei raddio yn unol â lefel y tanberfformio. Aethpwyd i'r afael â thanberfformio mewn adeiladu (gwaith plymer ac electro-dechnegol) yn drylwyr ac mae wedi arwain at welliant cryf yn neilliannau dysgwyr.

Mae'r darparwr yn arfarnu effaith mentrau gwella ansawdd yn dda. Mae prosesau monitro ansawdd effeithiol ar draws y bartneriaeth, gyda systemau cadarn i gefnogi gwelliant partneriaid lle bo angen. Mae'r darparwr yn gwneud defnydd da iawn o ddata a thystiolaeth uniongyrchol wrth farnu ansawdd ei ddarpariaeth ei hun a darpariaeth partneriaid. Mae cynadleddau tymhorol gyda staff a phartneriaid yn trafod gwella ansawdd a pherfformiad ac yn rhannu arfer dda. Ceir gweithdrefnau a phrosesau cryf ar gyfer hunanarfarnu. Caiff partneriaid eu cynnwys yn llawn mewn hunanarfarnu. Mae hunanarfarnu yn canolbwyntio'n dda ar wella deilliannau a phrofiadau dysgwyr ac mae'n nodi meysydd a thargedau clir i'w datblygu.

Mae'r darparwr wedi gwneud cynnydd effeithiol wrth fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion o'r ddau arolygiad blaenorol. Mae'n cydnabod bod angen iddo ddatblygu darpariaeth o hyd ar gyfer siaradwyr Cymraeg ymhellach.

Mae gan y darparwr ethos cryf o ddysgu proffesiynol. Mae ei gynllun hyfforddi cynhwysfawr a hynod fanwl yn seiliedig ar asesiad systematig o fedrau staff ac ar ddeilliannau trafodaethau gwerthuso rheolwyr gyda staff. Mae'n rhoi ystyriaeth hynod effeithiol i anghenion hyfforddi unigol a strategol. Mae rheolwyr yn adolygu'r cynllun yn rheolaidd. Gall sefydliadau partner fanteisio'n llawn ar y rhaglen hyfforddi. Mae'r rhan fwyaf o staff yn cynnal cofnodion defnyddiol a myfyriol o ddatblygu eu medrau. Mae bron pob un o'r aseswyr yn mynd ar leoliadau galwedigaethol blynyddol hynod fuddiol, gan sicrhau bod eu harbenigedd yn gyfredol. Canfu un asesydd peirianneg fod dysgwyr yn defnyddio offer arloesol. Galluogodd ei leoliad iddo ddysgu defnyddio'r offer fel y gallai gefnogi a chynghori dysgwyr yn well. Caiff staff newydd hyfforddiant cynhwysfawr, sy'n cwmpasu meysydd fel diogelu a radicaleiddio. Mae'r darparwr yn cynorthwyo pob asesydd newydd yn dda i ennill eu cymhwyster asesydd ac addysgu.

Mae trefniadau effeithiol i rannu cyfleoedd hyfforddi gyda phartneriaid yn ystyried anghenion a nodir gan bartneriaid. Caiff sesiynau diweddaru yn y gynhadledd dymhorol eu llywio gan adborth partneriaid.

Mae gan y darparwr strategaeth gyllid glir. Adroddir am berfformiad ariannol i lywodraethwyr yn rheolaidd. Mae rheolwyr yn monitro perfformiad ariannol yn fanwl. Mae strategaeth ystadau uchelgeisiol y darparwr wedi galluogi llawer o ddysgwyr i elwa ar adnoddau dysgu modern o ansawdd uchel, er enghraifft mewn adeiladu neu beirianneg awyrenegol. Mae'r strategaeth yn rhoi ystyriaeth dda i gynlluniau datblygu rhanbarthol ac mae wedi arwain at adeiladu cyfleusterau dysgu i gefnogi'r diwydiant cynhyrchu trydan.

Mae'r darparwr yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy wrth baratoi i weithio gyda phartneriaid newydd. Mae'n rheoli risg yn unol â hynny trwy gynnig contractau cychwynnol bach i bartneriaid newydd.

Mae'r darparwr wedi datblygu cysylltiadau rhagorol a hynod effeithiol gydag ystod eang iawn o gyflogwyr. Mae bron pob un o'r gweithleoedd yn cynnig amgylcheddau cyfoethog i ddysgwyr sy'n gwella eu medrau dysgu a'u medrau galwedigaethol. Mae'r partneriaethau hyn wedi cynorthwyo'r darparwr i sicrhau lefelau cyson uchel deilliannau dysgwyr dros gyfnod, ac mae dysgwyr yn elwa ar gyfleoedd o ansawdd uchel i ddatblygu eu cymhwysedd ymarferol a'u gwybodaeth am theori.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 201X: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/01/2019